

Gweithio ar draws y pedair gwlad

Canllawiau ar gyfrifoldebau datganoledig a chydweithio ledled y Deyrnas Unedig (DU)

Mae gweithio ar draws y pedair gwlad yn ddull cydweithredol, ledled y DU, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) tuag at lunio polisïau. Mae'n cynnwys gweision sifil o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni canlyniadau a ddymunir ar draws y DU.

Rydym yn gweithio fel hyn oherwydd y rhesymau canlynol:

- mae cylch gwaith yr ASB yn cynnwys tair gwlad. Rydym yn gweithredu yn Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac mae gennym gyfrifoldebau polisi gwahanol yn y gwledydd hyn
- mae [Safonau Bwyd yr Alban \(FSS\)](#), sy'n gorff cyhoeddus annibynnol, yn gyfrifol am bolisi bwyd yn yr Alban
- mae datganoli wedi arwain at wahanol ofynion polisi, atebolrwydd a blaenoriaethau ar draws y pedair gwlad

Mae ymrwymiad i weithio ar draws y pedair gwlad yn sicrhau y gallwn ni ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr yn effeithiol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ar lefel ymarferol, mae gweithio ar draws y pedair gwlad yn cynnwys arferion gweithio cydweithredol ar bob lefel o'n sefydliad.

Cyfrifoldebau polisi datganoledig

Mae cyfrifoldebau yn y meysydd polisi canlynol wedi'u datganoli:

- diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid
- honiadau, safonau a labelu maeth ac iechyd
- safonau ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd

Mae hyn yn golygu bod pwerau i ddatblygu polisi ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban wedi'u trosglwyddo o Lywodraeth y DU i'r gwledydd hyn. Mae datganoli hefyd yn golygu bod yr ASB yn atebol i weinyddiaeth pob gwlad am ei gweithgareddau yn y gwledydd hynny.

Mae datganoli p?er wedi arwain at wahanol fodolau llywodraethu, atebolrwydd a chyflenwi ar gyfer yr ASB ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac ar gyfer Safonau Bwyd yr Alban.

Mae'r gwahaniaethau hyn yn cynnwys:

- creu pwyllgorau cynghori ar fwyd annibynnol ar gyfer materion diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon
- cyrff cyflenwi eraill ar gyfer rheolaethau swyddogol yng Ngogledd Iwerddon
- alinio â gwahanol ofynion polisi, fel y rhai sydd wedi'u pennu yn Neddf yr Iaith Gymraeg

Mae cyfrifoldebau polisi ym mhob gwlad hefyd yn wahanol. Mae'r ASB yn gyfrifol am wahanol feysydd polisi ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Crynodeb o'r maes polisi a'r adran gyfrifol yn ôl gwlad

Cymru

Dyma sut mae meysydd polisi bwyd penodol wedi'u rhannu yng Nghymru:

- diogelwch hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid – ASB
- honiadau iechyd maeth a labelu maeth – Llywodraeth Cymru
- safonau ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd – ASB

Lloegr

Dyma sut mae meysydd polisi bwyd penodol wedi'u rhannu yn Lloegr:

- diogelwch hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid – ASB
- honiadau iechyd maeth a labelu maeth – Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- safonau ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd – Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra)

Gogledd Iwerddon

Dyma sut mae meysydd polisi bwyd penodol wedi'u rhannu yng Ngogledd Iwerddon:

- diogelwch hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid – ASB
- honiadau iechyd maeth a labelu maeth – ASB
- safonau ynghylch cyfansoddiad a labelu bwyd – ASB

Safonau Bwyd yr Alban

Mae [Safonau Bwyd yr Alban](#) (FSS) yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gweithio i ddefnyddwyr yn yr Alban. Ar 1 Ebrill 2015, fe gymerodd y swyddogaethau yr oedd ASB yr Alban yn gyfrifol amdanynt cyn hynny.

Sefydlodd [Deddf Bwyd \(Yr Alban\) 2015](#) Safonau Bwyd yr Alban fel swyddfa anweinidogol. Mae'n rhan o Weinyddiaeth yr Alban, ac mae'n gweithredu ochr yn ochr â Llywodraeth yr Alban, ond yn annibynnol arni. Fe'i hariennir yn bennaf gan Lywodraeth yr Alban, ond mae'n codi ffioedd i adennill costau ar gyfer swyddogaethau rheoleiddio.

Mae rôl Safonau Bwyd yr Alban yn debyg i rôl yr ASB. Mae'n datblygu polisiâu, yn darparu canllawiau i ddefnyddwyr a busnesau, yn cynghori rhanddeiliaid, ac yn gorfodi rheoliadau bwyd. Mae'r ASB yn gweithio'n agos ochr yn ochr â Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau canlyniadau a rennir.

Mae'r [Asiantaeth Safonau Bwyd \(ASB\) a Safonau Bwyd yr Alban wedi sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.](#)

Ysgrifennwyd a llofnodwyd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn wreiddiol yn 2015, pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am feysydd polisi'r ASB yn yr Alban i Safonau Bwyd yr Alban. Mae wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau ar y cyd gan arbenigwyr yn y ddau sefydliad i sicrhau ei fod yn addas at y diben yn y drefn reoleiddio newydd ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Mae'r [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#) yn nodi'r egwyddorion a fydd yn sail i'r berthynas rhwng y ddau sefydliad. Mae'n grynodedb lefel uchel o'r ymrwymadau a wnaed gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban ar sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, ac yn diffinio ein perthynas waith yn fanwl ar draws meysydd gwaith allweddol.

Darllenwch y [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth](#).